# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Dwristiaeth

**Cofnodion y cyfarfod**

Dyddiad: 02/05/17

Lleoliad: Ystafell Fideogynadledda

Yn bresennol:

| Enw | Teitl |
|---|---|
| Suzy Davies AC | Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Dwristiaeth |
| Russell George AC | |
| Adrian Barsby | Cynghrair Twristiaeth Cymru |
| Adrian Greason-Walker | Cynghrair Twristiaeth Cymru |
| Merlin Tolley | BH&HPA |
| Craig Lawton | Ysgrifennydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Dwristiaeth |
| Mark Isherwood AC | |
| Peter Cole | UTB |

Ymddiheuriadau:

| Enw | Teitl |
|---|---|
| Neil Hamilton AC | |

Croesawodd SD yr aelodau a dywedodd fod y broses apelio bellach ar agor drwy Asiantaeth y Swyddfa Brisio ers y cyfarfod diwethaf

Bydd Cynghrair Twristiaeth Cymru yn gweld a yw unrhyw un o'i haelodau wedi gwneud apêl eto neu wedi cael ymateb

**Cytunwyd y bydd yn gwthio eto am ddiweddariad gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio ynghylch ei phroses gyfrifo, gan gynnwys tryloywder a methodoleg**

Dywedodd MI fod Asiantaeth y Swyddfa Brisio wedi cael rhai cyfarfodydd gyda masnachwyr yn y Gogledd felly gellid cyflawni hyn

Atgoffodd AGW yr aelodau na fu unrhyw newid ers datganoli ardrethi busnes i Gymru

**Cytunwyd y bydd y Grŵp Trawsbleidiol yn ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Chyllid i ofyn pa gamau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd neu y bydd yn eu cymryd ynghylch y mater hwn ac a fydd yn edrych ar ddatganoli trethi busnes ymhellach, yn ystyried eu hamrywio neu'n newid y broses a'r dull ar gyfer eu cyfrifo**

**Cytunwyd hefyd y bydd yn trafod gyda'r Gwasanaeth Ymchwil, drwy Gareth Thomas, i weld a oes ganddo wybodaeth neu fanylion am y broses**

Dywedodd SD wrth yr aelodau fod Julie James, y Gweinidog dros Sgiliau, wedi cytuno i ddod i gyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar 27 Mehefin i drafod sgiliau a hyfforddiant ar gyfer y sector twristiaeth a lletygarwch

**Cytunwyd y byddai Cynghrair Twristiaeth Cymru yn casglu unrhyw gwestiynau i'r Gweinidog erbyn 17 Mehefin fel bod modd eu hanfon ati ymlaen llaw**

Cyflwynodd Cynghrair Twristiaeth Cymru ei Maniffesto Brexit i'r Grŵp Trawsbleidiol

Y pwyntiau allweddol a amlinellwyd oedd:

1. Beth yw cynllun olyniaeth Llywodraeth Cymru ar ôl gadael yr UE?
2. Hoffai Cynghrair Twristiaeth Cymru weld TAW yn cael ei hamrywio ar gyfer busnesau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth yng Nghymru fel rhan o'r pecyn hwn
3. Rhyw fath o gymorth gan y Llywodraeth i gymryd lle arian yr UE
4. Mae angen cymorth marchnata gan Lywodraeth Cymru
5. Darpariaeth hyfforddiant sy'n briodol o ran a) cyfanswm) b) amseru ac c) y math cywir
6. Seilwaith cymorth - mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cwrdd â Chynghrair Twristiaeth Cymru yn fuan i drafod hyn

Mae RG yn nodi yr hoffai weld mwy o farchnata ar gyfer cyrchfannau penodol gan Croeso Cymru er mwyn rhoi cymorth i ragor o ardaloedd a rhai mwy o faint

Roedd Cynghrair Twristiaeth Cymru yn cytuno

Cafwyd trafodaeth ynghylch faint o fewnbwn sydd ei angen gan Lywodraeth Cymru a Croeso Cymru

Hefyd trafodwyd y ffaith ei bod yn ymddangos ar adegau bod Croeso Cymru yn marchnata eu hatyniadau eu hunain ac nid atyniadau lleol eraill, gan arwain at lefel ganfyddedig o gystadleuaeth

Nododd Cynghrair Twristiaeth Cymru fod lefelau incwm i'r diwydiant am y flwyddyn yn edrych yn dda hyd yn hyn

Cynnydd o 11% mewn refeniw
Cynnydd o 6% mewn ymweliadau eleni
Cynnydd mewn ymweliadau o Tsieina a'r UE hefyd

Dywedodd Cynghrair Twristiaeth Cymru mai'r rheswm tebygol dros y cynnydd mewn ymweliadau yw newid yng ngwerth newid punt; mae ei gwerth yn well erbyn hyn

Daw 95% o ymwelwyr i Gymru dros y ffin o hyd - naill ai o Loegr neu drwy Loegr o dramor

Yn aml caiff ymweliadau o Tsieina eu trefnu gan gwmnïau mawr gyda nifer o arosfannau ar gyfer teithiau bws a phob gwibdaith ac ati yn gynwysedig.

**Cytunwyd y bydd cwestiynau i Lywodraeth Cymru am ei chynlluniau ar gyfer strategaeth farchnata newydd sy'n ystyried Brexit**

Trafodwyd trethi twristiaeth lleol a rolau ardaloedd gwella busnes

Mae ardaloedd gwella busnes Torbay a Loch Ness yn enghreifftiau da sydd wedi cynnwys busnesau twristiaeth yn eu gwaith ymwneud

Soniodd Cynghrair Twrtistiaeth Cymru am Gyfarwyddeb Teithio Pecyn yr UE a sut, gan fod y DU yn gadael yr UE, y gallai hyn fod o fudd i fusnesau bach a oedd yn ei chael yn anodd cystadlu o dan y gyfraith hon

Soniodd SD am y mater o TISS ac a fydd rhywbeth yn dod yn ei le neu a fydd yn cael ei wella

Dywedodd Cynghrair Twristiaeth Cymru yr hoffai weld hyn yn cael ei gadw o leiaf o ran faint o werth y mae'n ei ychwanegu, neu ei wella/cynyddu

**Cytunodd y Grŵp Trawsbleidiol y byddai'n ysgrifennu at Lywodraeth Cymru ynghylch ei Strategaeth Twf Twristiaeth a beth yw'r cynlluniau a'r amserlen i'w hailosod**

**Cytunwyd hefyd i hysbysu Pwyllgor Brexit y Cynulliad am hyn**

Soniodd Cynghrair Twristiaeth Cymru am adolygiad Cymru Hanesyddol, gan gofion nad yw'n ffafrio atyniadau sector cyhoeddus

Gofynnodd SD beth yw barn Cynghrair Twristiaeth Cymru ynghylch pedwar cynnig Cymru Hanesyddol

Dywedodd Cynghrair Twristiaeth y bydd pob un ohonynt yn arwain at fwy o gydlynu gyda'r sector cyhoeddus, ond bydd angen gweld tryloywder yn y modd y mae Croeso Cymru yn defnyddio cronfeydd. Rhaid cofio hefyd bod angen i'r cynlluniau hyn roi cyfle i'r sector preifat

Hoffai Cynghrair Twristiaeth Cymru weld cynrychiolaeth gan y sector preifat ar fwrdd Cymru Hanesyddol

Trafodaeth ynghylch sut gellid cynnwys y sector cyhoeddus a'r sector preifat a sut gellid holi cwestiynau ynghylch sut gall y sector preifat ddefnyddio brand Llywodraeth Cymru a bod yn rhan ohono, fel yr ymgyrch EPIC

**Cytunwyd i wahodd Croeso Cymru i drafod brandio**
**Hefyd gwahodd Visit Britain i drafod**

**Cynigiwyd ystyried wythnos gyntaf mis Medi ar gyfer Grŵp Trawsbleidiol yn y canolbarth/gogledd lle gellid trafod y materion hyn gyda Croeso Cymru a Visit Britain**

**Cytunwyd hefyd y bydd y Grŵp Trawsbleidiol yn gofyn i'r Gwasanaeth Ymchwil am restr o gynrychiolwyr twristiaeth rhanbarthol a lleol**